

## **Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd drwy Zoom 27/4/2021 am 7yh

Minutes of the Full Council meeting held by Zoom 27/4/2021 at 7pm

Presennol/Present: Myrddin Owens, Gareth Winston Roberts, Liz Wood, Alan Wood, Gordon Warren, Kevin Ellis, Chris Williams, Julie Hughes, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Wrth Law/In Attendance: Carli Evans Thau (clerc/clerk), Gwynfor Owen (Cyfieithu/translation), Angharad Davies (Cadno Communications), Grant Folley (EDF-R), Christian Rohan (EDF-R)

Ymddiheuriadau/Apologies: Mike Roberts, Meg Roberts, Gina Jones, Richard Jones, Carys Hughes

### **1 Croeso ac Ymddiheuriadau/Welcome and Apologies**

Bu Liz Wood gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

*Liz Wood chaired the meeting and welcomed all present.*

### **2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest**

Dim/None

### **3 Fferm Arae Haul Porth Wen Solar Farm (EDF-R)**

Cadarnhawyd bod cyflwyniad wedi ei anfon all ai'r aelodau er gwybodaeth cyn y cyfarfod. Bu Angharad Davies gyflwyno'r gwestai a'u rol yn y prosiect. Bu cadarnhau safle'r datblygiad gan nodi bod Fferm Wynt Rhyd y Groes yn rhannu'r un tir ac felly bod rhannau gwag o fewn y datblygiad er mwyn sicrhau bod y tyrbinau yn callu cael eu cynnal. Cadarnhawyd bod y prosiect dros 200 acer.

Cadarnhawyd bod EDF-R wedi prynnu'r hawliau ar gyfer y datblygiad gan gwmni Countryside Renewables, nodwyd bod y Cyngor Tref wedi gwrthwyenbu'r datblygiad yn wreiddiol. Nodwyd bod rhai newidiadau i union leoliad y safle wedi digwydd yn ystod y broses cynllunio.

Mae EDF-R yn gobeithio dechrau paratoi'r safle yn ystod 2021, a chwblhau'r datblygiad yn 2022, gyda'r datblygiad wedi ei gysylltu i'r Grid erbyn mis Medi 2022. Cadarnhawyd bod y cwmni yn edrych ar estynnu'r prosiect (tua 70 acer) a bod capasiti ar y Grid ar gael, yn ddiabyddol ar ganiatad cynllunio.

Cafwyd wybod na fyddai'r prosiect yn cyflogi mwy na 2-3 unigolyn unwaith bydd yr offer yn ei le. Bydd arbennigwyr EDF-R yn cynnal y safle o'u canolfan yn Aberystwyth. Trafodwyd allbwn y prosiect (49.9kW) a'r strwythurau oedd eisioes yn eu lle i gysylltu a'r Grid. Trafodwyd y berthynas rhwng y fferm arae haul a'r tyrbinau gwynt. Nodwyd bod cynlluniau i uwch raddio'r tyrbinau ond bod y caniatad yma dim ond am flwyddyn arall. Cadarnhawyd na fydd EDF-R yn prynnu'r safle ond yn hytrach yn cael prydles gyda'r dau tîrfeddianwr dros gyfnod o 35 mlynedd.

Nodwyd bod y dreth busnes yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru ac nid i'r gymuned leol ac felly na fyddai budd cymunedol uniongyrchol. Bu Gareth Winston Roberts ofyn pa fudd cymunedol oedd y cwmni yn ei gynnig. Cafwyd cadarnhad bod y cwmni am gadw at yr addewid i dalu £10k y flwyddyn i Ysgol Gynradd Cemaes ac Ysgol Syr Thomas Jones fel bu Countryside Renewables gytuno, ac eu bod yn edrych ar opsiynau posib eraill. Nodwyd nad oedd budd cymunedol fel rheol i'w gytuno yn rhan o'r broses cynllunio a bydd y cwmni yn edrych ar safonau diwydiant er cymhariaeth. Bydd mwy o wybodaeth i'w gael tua mis Mehefin pan fydd y cwmni wedi trafod ymhellach yn fewnol.

Bu gofyn i gynrychiolwyr EDF-R pwy oedd wedi cytuno ar £10k y flwyddyn gan nodi nad Cyngor Tref Amlwch na Chyngor Cymuned Llanbadrig oedd wedi gwneud hynnu. Nodwyd bod y ddau gyngor wedi cwrdd a Countryside Renewables ond nad oedd unrhyw gytundeb rhyngthynt. Cadarnhawyd bod EDF yn gweithio gyda'r gymuned ac yn gweithio i'r egwyddor agosatrydd. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar bod EDF-R yn trafod gyda'r cynghorau lleol.

Gofynnwyd os fydd y cwmni yn datblygu storfa batri ar y safle; nodwyd bod y cais cynllunio wedi cynnwys yr adnodd yma yn barod, ond nad oedd gwybodaeth pellach ar gael. Nodwyd bod y penderfyniad yma yn un masnachol i'r cwmni drafod yn fewnol.

Diolchwyd i'r tri cynrychiolydd am ddod i'r cyfarfod a rhannu gwybodaeth. Bu edrych ymlaen am ddiweddariad tua mis Mehefin. Bu'r cynrychiolwyr adael y cyfarfod am 7.30 o'r gloch.

Wedi trafod ymhellach, bu cytuno penodi cynrychiolwyr i gwrdd a Chyngor Cymuned Llanbadrig ac EDF-R. Penodwyd yn unfrydol Gareth Winston Roberts, Myrddin Owens, Liz Wood ac Alan Wood i gynnal y trafodaethau ar ran y Cyngor Tref.

*It was confirmed that a presentation had been sent out to members for information prior to the meeting. Angharad Davies introduced the guests and their role in the project. The site of the development was confirmed, noting that the Rhyd y Groes Wind Farm shares the same land and therefore vacant areas within the development to ensure the turbines are maintained. The project was confirmed to be over 200 acres.*

*It was confirmed that EDF-R had purchased the rights for the development from Countryside Renewables, it was noted that the Town Council had originally opposed the development. It was noted that some changes to the exact location of the site had taken place during the planning process.*

*EDF-R hopes to begin site preparation during 2021, and complete the development in 2022, with the development connected to the Grid by September 2022. It was confirmed that the company is looking at extending the project (approximately 70 acres); Grid capacity is available, subject to planning permission.*

*It was reported that the project would employ no more than 2-3 people once the equipment was in place. EDF-R specialists will maintain the site from their base in Aberystwyth. The project's output (49.9kW) was discussed and the structures already in place to connect to the Grid. The relationship between the solar array farm and the wind turbines was discussed. It was noted that there were plans to upgrade the turbines but that this permission was only for another year. It has been confirmed that EDF-R will not purchase the site but will get lease the land he two landowners over a 35 year period.*

*It was noted that business rates were paid to the Welsh Government and not to the local community and therefore there would be no direct community benefit. Gareth Winston Roberts asked what community benefit the company offered. Confirmation was given that the company will honour the promise of paying Cemaes Primary School and Sir Thomas Jones £10k a year as agreed by Countryside Renewables, and that they are exploring other possible options. It was noted that community benefit was not usually agreed as part of the planning process and the company will be looking at industry standards for comparison. More information will be available around June when the company has discussed further internally.*

*EDF-R representatives were asked who had agreed £10k per annum stating that neither Amlwch Town Council nor Llanbadrig Community Council had done so. It was noted that both councils had met Countryside Renewables but that there was no agreement between them. It was confirmed that EDF works with the community and works to the proximity principle. Members were grateful that EDF-R was in discussion with the local councils.*

*It was asked if the company would develop an on-site battery store; it was noted that the planning application had already included this resource, but no further information was available. It was noted that this decision was a commercial one for the company to negotiate internally.*

*The three representatives were thanked for attending the meeting and sharing information. Members looked forward for an update was around June. Delegates left the meeting at 7.30 pm.*

*Following further discussion, it was agreed to appoint representatives to meet Llanbadrig Community Council and EDF-R. Gareth Winston Roberts, Myrddin Owens, Liz Wood and Alan Wood were unanimously appointed to conduct the discussions on behalf of the Town Council.*

#### **4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting** Cymeradwywyd y cofnodion, cynnig Gareth Winston Roberts, eilio Myrddin Owens.

4.6 – Nodwyd dylai'r cofnodion gofnodi mai wedi penderfynu oedd y Cyngor ac nid cytuno ar gynnwys cofnodion.

*The minutes were approved, proposed Gareth Winston Roberts, seconded Myrddin Owens. 4.6 – it was noted that the minutes should read that the Council had decided on, not agreed to the content of the minutes.*

## **5 Materion yn Codi/Matters Arising**

Gofynnwyd oes oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Richard Jones ynglyn a rhestr ail-gartrefi yn y ward yma a'r dreth cyfatebol fyddai'n deilwng i Amlwch. Y clerch i gysylltu ag o am ddiweddariad.

*It was asked if information had been received from Richard Jones regarding the list of second homes in this ward and the equivalent tax that would have been for of Amlwch. The clerk to contact him for an update.*

## **6 Pwyllgorau Allanol/External Meetings**

### **6.1 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru/One Voice Wales Area Committee**

Derbyniwyd adroddiad gan Liz Wood drwy ebost yn dilyn y cyfarfod. Cytuno gofyn cwestiwn yn swyddogol i'r pwyllgor yn eu cyfarfod nesaf am aelodau yn datgan diddordebau mewn cofrestr diddordebau fel sydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Tref. Nodwyd bod nifer o aelodau heb gwblhau'r daflen hyd yma.

*A report from Liz Wood was circulated by email following the meeting. Agreed to formally ask the committee at their next meeting about members declaring interests in a register of interests as adopted by the Town Council. It was noted that many members had not yet completed the document.*

## **7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd nad oedd cyfarfod wedi cymryd lle gyda'r Sgowtiaid hyd yma ond eu bod yn disgwyl prisiau am y gwaith sydd ei angen yn yr adeilad. Bu'r pwyllgor argymhell bod £10k yn cael ei glustnodi tuag at y prosiect gan gydnabod efallai byddai angen mwy na hyn. Bu'r Cyngor gytuno yn unfrydol.

Derbyniwyd llythyr gan Annwen Morgan ynglyn a datblygu adnodd 3G ger yr ysgol a'r ganolfan hamdden. Roedd y pwyllgor wedi siomi a'i hymateb ac yn cael yr argraff nad oedd CSYM yn pryderu am ddyfodol y r ysgol na'r ganolfan. Nodwyd bod Myrddin Owens eisioes wedi cysylltu i ofyn am eglurhad am y 'prosesau cymleth'. Bu'r pwyllgor argymhell bod y Cyngor yn cysylltu i ofyn pwy oedd ynghlwm a'r penderfyniad – oedd y cynghorwyr sirol wedi cael mewnbwn i'r drafodaeth? Cynnig Gareth Winston Roberts, eilio Alan Wood. Cytuno anfon copi o ymateb Annwen Morgan i'r cyrff sydd wedi bod mewn cyswllt a'r Cyngor Tref am y prosiect.

Nodwyd bod nifer o daliadau wedi eu cymeradwyo, a bod yr hawl wedi ei roi i'r clerch drefnu bod anfonebau Biffa yn cael eu talu drwy ddebyd uniongyrchol. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan yr Urdd yn dilyn cyfraniad tuag at eu canolfannau preswyl.

Ni fu ceisiadau newydd am gefnogaeth ariannol. Trafodwyd cyfraniad posib i'r ysgol gynradd gan nodi mai bwriad y Cyngor oedd cefnogi'r disgyblion tra yn gweithio o adra. Mae'r ysgol wedi gofyn a fyddai posib cyfrannu tuag at droliau gwefru chrome-books (gwerth £4k). Cynnig y pwyllgor yw bod y Cyngor yn cyfrannu £1.5k tuag at gost yma. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Winston Roberts, pawb yn cefnogi.

Bu Alan Wood godi pryder am ddiogelwch ar faes parcio'r farchnad ar fore Gwener tra bydd stondinau, cwsmeriaid a cherbydau yn cymysgu. Cytuno cysylltu a CSYM i dynnu sylw a nodi pryderon.

Nodwyd bod polisi yswiriant y Cyngor angen ei adnewyddu, bu cytuno ar gytundeb pum mlynedd gyda Zurich.

Cadarnhawyd bydd cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a CSYM i'w gynnal 13/5/2021 am 10.15 or gloch. Y clerch i anfon y wybodaeth i'r holl aelodau gan nodi ei fod yn bwysig bod pawb sydd yn gallu, yn ymuno a'r cyfarfod.

*Myrddin Owens summarised the meeting. It was noted that a meeting had not taken place with the Scouts so far but that they were expecting prices for the work needed in the building. The committee recommended that £10k be earmarked towards the project and acknowledged that more than this may be required. The Council agreed unanimously.*

*A letter was received from Annwen Morgan regarding the development of a 3G facility near the school and leisure centre. The committee was disappointed with its response and was given the impression that the IACC was not concerned about the future of the school or centre. It was noted that Myrddin Owens had already contacted to seek clarification on the 'complex processes'. The committee recommended that the Council get in touch to ask who was involved in the decision - had the county councillors had input into the debate? Proposed Gareth Winston Roberts, seconded Alan Wood. Agreed to send a copy of Annwen Morgan's response to the organisations who have been in contact with the Town Council about the project.*

*It was noted that a number of payments had been approved, and that the clerk had been given the right to arrange for Biffa's invoices to be paid by direct debit. A letter of thanks was received from the Urdd following a contribution towards their residential centres.*

*There were no new applications for financial support. A possible contribution to the primary school was discussed, noting that the Council had intended to support the pupils whilst working from home. The school has asked if it would be possible to contribute towards the chrome-books charging trolleys (worth £4k). The committee's proposal is for the Council to contribute £1.5k towards the cost of this, proposed by Myrddin Owens, and seconded Gareth Winston Roberts, all in support.*

*Alan Wood raised concerns about safety on the market car park on Friday mornings while stalls, customers and vehicles are in amongst each other. Agreed to contact IACC to highlight and raise concerns.*

*It was noted that the Council's insurance policy needed to be renewed, agreed to a five year agreement with Zurich.*

*It was confirmed that a meeting with Welsh Government officials and IACC will be held at 13/5/2021 at 10.15am. The clerk to send the information to all members noting that it is important that everyone who can, joins the meeting.*

## **8 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces Committee**

Cadarnhawyd bod adroddiad wedi ei anfon i'r aelodau ymlaen llaw. Mae'r llawr diogelwch newydd ym Mharc Lon Goch bellach wedi ei osod, a'r gwaith yng Nghraig y Don yn cael ei gwblhau heddiw/fory.

Trafodwyd difrod diweddar ble mae pobl ifanc wedi cynnau tan ger rhai o'r offer a difrodi'r llawr yn Lon Goch. Mae'r heddlu yn ymwybodol ac mae'r unigolion wedi eu hadnabod drwy CCTV. Roedd yr aelodau wedi tristhau bod yr offer wedi ei ddifrodi a bod angen mewnbwn gan yr Heddlu. Trafodwyd y posibilrwydd bod rhieni'r unigolion yn cyfrannu tuag at y gost o drin y difrod.

Bu nodi achos arall o ddifrod ble bu plant yn sgwennu graffiti dros offer newydd yn Lon Goch. Mae'r Heddlu wedi ymyryd yma hefyd a'r teuluoedd wedi glanhau'r difrod.

*It was confirmed that a report had been sent to members in advance. The new safety flooring at Lon Goch Park has now been installed, and work at Craig y Don is being completed today/tomorrow.*

*Recent damage was discussed where young people had lit a fire near some of the equipment and damaged the floor in Lon Goch. Police are aware and individuals have been identified through CCTV. Members were saddened that the equipment had been damaged and that Police input had*

*been required. The possibility of the individual's parents contributing towards the cost of repairing the damage was discussed.*

*Another incident of damage was noted where children wrote graffiti over new equipment in Lon Goch. The Police have also intervened here and the families have cleaned up the damage.*

## **9 Adroddiad Pwyllgor Cynllunio/Planning Committee Report**

Nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd. Daethpwyd a'r materion isod at sylw'r Cyngor Llawn – Llys Gorsaf – ni fu gwrthwynebiad i'r enw yma ar y datblygiad newydd ar 'Old Station Road' Llys Roman – ni fu sylw pellach am enwi'r datblygiad

Cafwyd wybod bod ceisiadau cynllunio Bull Bay Hotel a 24B Awelfryn wedi eu caniatáu. Nodwyd bod cais i estynnu'r fynwent wedi ei wrthod. Cytuno trefnu cyfarfod Pwyllgor y Fynwent ar y safle i drafod ymhellach.

Gofynnwyd am gadarnhad gan CSYM os yw eu polisi wedi newid yn ddiweddar ynglyn a'r angen am ddarparu llefydd parcio ar gyfer fflatiau. Y clerch i gysylltu i gadarnhau.

*The committee has not met. The following issues were brought to the attention of Full Council - Llys Gorsaf –no objection to the proposed name for the new development on Old Station Road. Llys Roman - no further comment on naming the development*

*It was reported that planning applications for Bull Bay Hotel and 24B Awelfryn had been granted. It was noted that an application to extend the cemetery had been refused. Agreed to arrange a Cemetery Committee meeting on site for further discussion.*

*Confirmation was sought from the IACC if their policy had recently changed regarding the need to provide parking spaces for flats. Clerk to contact to confirm.*

## **10 Gwefan y Cyngor a Chyfyngau Cymdeithasol/Council Website and Social Media**

Cadarnhawyd bod y wefan newydd yn fyw a bod mwy o wybodaeth yn cael ei ychwanegu wrth fynd. Cytuno asesu proffil y Cyngor ar gyfyngau cymdeithasol unwaith bod y wefan wedi ei gwblhau. Cytuno gofyn i aelodau ddarparu llun a pwt o wybodaeth i'w gynnwys gyda'u henw ar y rhestr aelodaeth os am wneud hynnu. Cytuno byddai cynnwys cofnod absenoldebau cynghorwyr dros y flwyddyn, cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Winston Roberts, dim gwrthwynebiad.

*It was confirmed that the new website was live and that more information was added as it was ready. Agreed to assess the Council's profile on social media once the website is complete. Agreed to ask members to provide a photo and a bit of information to be included with their name on the on the list of council members should they wish to do so. Agreed that the record of councillor absences over the year be included, Myrddin Owens proposed, seconded Gareth Winston Roberts, no objection.*

## **11 Datblygiad Fferm Wynt Arfordirol/Coastal Wind Farm Development**

Bu gohurio'r drafodaeth nes bydd Mike Roberts yn bresennol.  
*The item was deferred until Mike Roberts was present.*

## **12 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol/Questions to the County Councillors**

**12.1** Bu diolch i Aled Morris Jones am yr ymateb gan CSYM yn amlinellu'r hesymau pam nad oedd gwaith cynnal a diweddarau wedi dechrau ym Mhorthladd Amlwch. Nodwyd siom pam, wedi datganiad mawr yn y cyfryngau yn ol ym mis Hydref 2020, nad oedd y gwaith wedi dechrau o gwbl. Erbyn gweld mae manyldeb y gwaith wedi newid o drin 9 rhan o'r harbwr i drin 2 rhan o'r harbwr a nid yw'r arolygon manwl wedi eu cwblhau fyth. Bu cydnabod bod y mater yma wedi ei grybwyll yng nghyfarfod defnyddwyr y porthladd yn Siambr y Cyngor Tref dros 18 mis ynghynt. Bu gofyn faint o arian oedd wedi ei wario ar y prosiect hyd yma. Nododd Aled Morris Jones ei fod wedi anfon ebost at Christian Branch yn gofyn am ddiweddariad a phwysleisio bod y buddsoddiad a gwelliannau yn anobeithiol hwyr.

*Aled Morris Jones was thanked for the response from the IACC outlining the reasons why maintenance and upgrading work had not started at Amlwch Port. Disappointment was expressed*

*as to why, following a major media release back in October 2020, the work had not started at all. By now the detail of the work has changed from treating 9 parts of the harbour to treating 2 parts of the harbour and the detailed surveys are still yet to be completed. It was acknowledged that this issue had been raised at a port users meeting in the Town Council Chamber over 18 months earlier. It was asked how much money had been spent on the project so far. Aled Morris Jones noted that he had emailed Christian Branch asking for an update and emphasised that the investment and improvements were hopelessly overdue.*

- 12.2** Bu Myrddin Owens ofyn am ddiweddarid am unrhyw fuddsoddiad i ogledd Mon. Cytuno ysgrifennu at Annwen Morgan i ofyn sut mae CSYM yn bwriadu gwireddu'r addewidion sydd wedi eu gwneud. Cytuno gofyn faint o arian sydd wedi ei wario yn Llangefni a Chaergybi, a faint o arian Wylfa sydd wedi ei wario y tu allan i ward Twrcelyn. Gofynnwyd hefyd faint o'r arian yma sydd wedi ei wario ar swyddi cefnogol.

*Myrddin Owens asked for an update on any investment into north Anglesey. Agreed to write to Annwen Morgan to ask how the IACC intend to deliver on the promises made. Agreed to ask how much money has been spent in Llangefni and Holyhead, and how much Wylfa money has been spent outside the Twrcelyn ward. It was also asked how much of this money has been spent on support jobs.*

- 12.3** Gofynnwyd am gadarnhad o'r nifer o ail-garetrefi yn ardal Twrcelyn, a hefyd y nifer o'r rheini sydd wedi eu cofrestru yn fusnesau ac felly yn cael effaith ar y dreth. Trafodwyd y polisi cyfredol a'r dai gwyliau a chytuno cysylltu a Marc Jones, adran gyllid CSYM i dynnu sylw a gofyn am newidiadau. Pwysleiswyd bod pobl ifanc yn methu fforddio prynnu tai yn eu cymunedau a bod angen cymryd camau i ddiogelu cymunedau.

*Confirmation was sought on the number of second homes in the Twrcelyn area, and also the number of those registered as businesses and therefore having an impact on the council tax. The current policy and holiday homes were discussed and it was agreed to contact Marc Jones, IACC finance department to highlight and request changes. It was emphasised that young people could not afford to buy houses in their communities and that steps needed to be taken to protect communities.*

**13 Gohebiaeth/Correspondence** (bu Kevin Ellis gadeirio'r eitem/Kevin Ellis chaired the item)

- 13.1** Daw gwybodaeth gan CSYM am gynllun i ddiddymu llecynau parcio dros dro er mwyn lledu'r palmentydd a sicrhau bod pobl yn gallu cadw oddi wrth eu gilydd wrth i gyfyngiadau covid gael eu codi. Cytuno yn unfrydol gwrthwynebu'r cyllun gan nodi bod angen llecynau parcio i ddenu pobl i'r busnesau hynnu sydd yn y dref. Cynnig Gareth Winston Roberts, eilio Myrddin Owens.

*Information was received from the IACC about a proposal to temporarily remove parking spaces to widen the pavements and ensure that people can stay apart as covid restrictions are lifted. Unanimously agreed to oppose the scheme, noting that parking spaces are needed to attract people to these businesses in the town. Proposed Gareth Winston Roberts, seconded by Myrddin Owens.*

- 13.2** Daw ebost gan Caru Amlwch gyda mwy o wybodaeth am brosiect potiau blodau yn y dref. Byddai angen i'r Cyngor Tref wneud cais i gael trwydded i osod y potiau blodau ar y priffordd (gan gynnwys ymylon a phalmentydd). Roedd yr aelodau yn siomedig bod CSYM yn rhoi rhwystrau i atal grwpiau cymunedol i wella eu Cymuned. Bu cydnabod bod y grwp wedi diogelu arian tuag at y prosiect ac wedi gwneud gwaith da gyda'r cwmnïau i gytuno i fabwysiadu potiau blodau ger eu busnesau. Cytuno bod y clerc yn anfon ebost Caru Amlwch, gan gynnwys sylwadau CSYM at sylw Aled Morris Jones iddo drafod ymhellach gyda'r swyddogion perthnasol.

*An email was received from Caru Amlwch with more information about a flower pot project in town. The Town Council would need to apply for a license to install the flowerpots on the highway (including verges and pavements). Members were disappointed that the IACC were providing barriers to prevent community groups improving their Community. It was recognised that the group had secured funding for the project and had done good work with the companies to agree to adopt flower pots near their businesses. Agreed that the clerk sends the Caru Amlwch email, including IACC's comments to Aled Morris Jones for further discussion with the relevant officers.*

**14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth Mai 25, 2021 am 7yh  
*The next Full Council meeting will be held Tuesday May 25, 2021 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.45yh/*The meeting closed at 20.45pm.*

Liz Wood  
Cadeirydd, Cyngor Tref Amlwch  
Chair, Amlwch Town Council

(CET04/2021)